

# Tyfu i Fyny Growing Up



## Datblygiad Personol a Pherthnasoedd

*Llyfryn gwybodaeth i rieni*

Welsh Network of Healthy School Schemes



Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru



Mae ein hysgol yn cymryd rhan yng Nghynllun Ysgolion Iach Torfaen. Fel rhan o'r gwaith i ddatblygu Addysg Personol a Chymdeithasol mewn ysgolion, mae angen i ni gyflwyno Addysg Datblygiad Personol a Pherthnasoedd.

**Pwrpas y llyfryn hwn yw rhoi gwybodaeth i chi ar yr hyn a fydd yn cael ei gyflwyno i'r plant.**

**Bydd Datblygiad Personol a Pherthnasoedd yn cael ei gyflwyno i ddisgyblion trwy gyfrwng:**

- Gweithgareddau amser cylch.
- Adnoddau 'Tyfu i Fyny' Ysgolion Iach Torfaen.
- Adnoddau Sense 'Tyfu i Fyny a Chadw'n Ddiogel'.
- Llyfrau straeon.
- Pynciau cwricwlwm e.e. Gwyddoniaeth, Addysg Grefyddol.
- Rhaglenni Addysg Personol a Chymdeithasol.
- Yn anffurfiol wrth i'r cyfle godi yn yr ystafell ddosbarth.



## Canlyniadau Dysgu ar gyfer y Cyfnod Sylfaen

Erbyn diwedd blwyddyn 2 bydd disgyblion yn medru:

- Gwahaniaethu rhwng cyffwrdd priodol ac amhriodol.
- Defnyddio'r geiriau cywir i enwi rhannau o'r corff er mwyn gwahaniaethu rhwng menywod a dynion. Y termau byddwn yn eu defnyddio fydd **pidyn** (penis) a **ceilliau** (testicles) ar gyfer dynion a **bronnau** (breasts) a **fagina** (vagina) ar gyfer menywod.

## Canlyniadau Dysgu Blynnyddoedd 3/4

Ar ôl cyfres o wersi bydd disgyblion yn medru:


- Gwahaniaethu rhwng cyffwrdd priodol ac amhriodol.
- Defnyddio'r geiriau cywir i enwi rhannau o'r corff er mwyn gwahaniaethu rhwng menywod a dynion. Y termau byddwn yn eu defnyddio fydd **pidyn** (penis) a **ceilliau** (testicles) ar gyfer dynion a **bronnau** (breasts) a **fagina** (vagina) ar gyfer menywod.
- Deall pwysigrwydd eu diogelwch personol.
- Deall beth i'w wneud neu bwy i fynd atynt os ydynt yn teimlo'n anniogel.
- Cymryd cyfrifoldeb cynyddol am gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac yn iach.
- Gwerthfawrogi teuluoedd a ffrindiau fel ffynhonnell o gefnogaeth i'w gilydd.
- Deall sut gall credoau diwylliannol a chrefyddol effeithio sut mae pobl yn meddwl.
- Parchu gwahaniaethau a chydabod pwysigrwydd cyfle cyfartal.



## Canlyniadau Dysgu Blynyddoedd 5/6

### Ar ôl cyfres o wersi bydd disgyblion yn medru:

- Gwahaniaethu rhwng cyffwrdd priodol ac amhriodol.
- Defnyddio'r geiriau cywir i enwi rhannau o'r corff er mwyn gwahaniaethu rhwng menywod a dynion. Y termau byddwn yn eu defnyddio fydd **pidyn** (penis) a **ceilliau** (testicles) ar gyfer dynion a **bronnau** (breasts) a **fagina** (vagina) ar gyfer menywod.
- Deall y rhesymau dros y newidiadau corfforol ac emosiynol sy'n digwydd yn ystod oed aeddfedrwydd, gan gynnwys cenhediad, beichiogrwydd a genedigaeth.
- Deall amrediad eu teimladau a'u hemosiynau nhw ac eraill.
- Gwybod beth i'w wneud neu bwy i fynd atynt os ydynt yn teimlo'n anniogel.



Os hoffech weld copi o bolisi'r ysgol neu unrhyw rai o'r adnoddau, neu i gael rhagor o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â'r ysgol.

